**Gallaf ysgrifennu testunau perswâd ar gyfer …**

- Bwyta'n iach
- Manteision peidio ysmygu
- Gwneud mwy o ymarfer corff: cerdded i'r ysgol





- Achos dros /yn erbyn ffordd osgoi
- Perswadio Prifathro i - leihau gwaith cartref; gael gwared ar y wisg ysgol; i ganiatáu chwarae pêl-droed ar yr iard; newid y fwydlen ginio; i ganiatau ffonau symudol yn yr ysgol
- Posteri hysbysebu, canig neu rigwm radio ar gyfer nwyddau neu atyniadau
- Achub ein parc; coedwig
- Achos dros / yn erbyn hela; pysgota; sŵ; syrcas



- Ymuno â'n clwb
- Darllen llyfr arbennig — adolygiadau llyfrau a ffilm
- Gwylio rhaglen deledu
- Perswadio cymeriad hanesyddol i newid ffordd o weithredu



- Perswadio rhywun i beidio â bod yn fwli
- Does dim UFO; ysbrydion!

## Sut i gyflwyno 'Testunau Perswâd'

- Llythyr



- Pamffled
- Poster
- Erthygl papur newydd neu gylchgrawn
- Canig neu rigwm ar y radio



- Recordiad fideo
- Cyflwyniad llafar
- Hysbyseb

| **Rhestr wirio ysgrifennu 'Testun Perswâd'** | |
|---|---|
| Wnes i gofio …? | |
| Datganiad agoriadol ar yr achos | ☺ |
| Amser presennol | ☺ |
| Cysyllteiriau rhesymegol | ☺ |
| Technegau i ddenu a chysylltu | ☺ |
| Tystiolaeth ac enghreifftiau | ☺ |
| Iaith llawn perswâd | ☺ |
| Rhesymau a manteision pwerus | ☺ |
| Datganiad i orffen a fydd yn atgyfnerthu | ☺ |

Addasiad o bamffled Tîm Llythrennedd Swydd Gaerhirfryn

# Fe allwch chi ysgrifennu Testunau Perswâd hefyd



## Beth yw pwrpas testun perswâd?

- Dadlau achos safbwynt arbennig
- Argyhoeddi'r darllenwr i gredu yn yr hyn rydych chi'n ysgrifennu amdano
- Perswadio'r darllenwr i brynu'r nwyddau neu i ymweld â'r atyniad
- Argyhoeddi'r darllenwr bod rhai pethau'n dda iddynt



## Yr iaith i'w defnyddio

- Amser presennol
- Cysyllteiriau rhesymegol: dengys hyn; beth bynnag; am hynny; felly; ond; os; hefyd; heblaw hynny; o ganlyniad; oherwydd
- Symud o'r cyffredinol - *Mae ymarfer corff yn dda i chi.* - i'r penodol — *Mae beicio yn ddull effeithiol o gadw'n heini.*



## Strwythur a threfniant

- Datganiad agoriadol ar yr achos
- Pwyntiau perswadiol ac yna tystiolaeth a manylder i ddilyn i gefnogi'r pwyntiau — *Mae llysiau yn dda i chi oherwydd maent yn cynnwys fitaminau. Mae fitamin C yn hanfodol …*
- Datganiad i orffen sy'n crynhoi ac yn atgyfnerthu'r achos



## I bwy mae'r testun perswâd?

- Cwsmeriaid ar gyfer eich nwyddau neu atyniad
- Pobl mewn awdurdod sy'n gallu newid pethau i chi
- Pobl yr ydych yn dymuno iddynt ymuno mewn ymgyrch i newid rhywbeth
- Pobl yr ydych yn ceisio eu perswadio i newid eu ffordd o fyw, i fod yn iach; yn ddiogel; hapusach






## Cliwiau i'r clyfar!

- Denu sylw'r darllenwr — defnyddio cyflythreniad, odl, mwyseiriau, hiwmor
- Cysylltu â'r darllenwr — bod yn gyfeillgar, disgwyl iddynt gytuno â chi, defnyddiwch yr ail berson (chi)
- Hysbysu'r darllenwr — dywedwch wrthynt am yr achos
- Gwnewch i'r darllenwr deimlo bod pob un arall yn gwneud hyn, yn cytuno neu wedi elwa o hyn; *credir yn gyffredinol; dengys gwaith ymchwil; mae pawb yn cytuno; rydym i gyd yn gwybod*
- Temtiwch y darllenwr: O'r diwedd! Yn union beth yr oeddech eisiau.
- Defnyddiwch luniau emosiynol
- Byddwch yn rhesymol—peidiwch â defnyddio geiriau fel twp, ffôl, hurt
- Defnyddiwch dystiolaeth ac ystadegau i gefnogi eich achos